**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Cynllunio**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **16 Medi 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus**
**Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai**

**Awdur yr Adroddiad:** **Catrin E Roberts, Swyddog Cynllunio**

**Teitl: Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy - Drafft ymgynghori**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft (CCA) ar ynni adnewyddadwy. Mae'n cynnwys y brif ddogfen ddrafft, Atodiad I, a'r ddogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol, Atodiad II.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gynnal ymgynghoriad ar y Canllaw Datblygu Atodol drafft gyda chyrff statudol a'r cyhoedd.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn cytuno ar y Canllaw Cynllunio Atodol drafft fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Nid yw nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau y gellir trin CCAau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), wrth i'r ACLl, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

4.2. Mae'r CCA yn cefnogi'r polisïau'r CDLl canlynol; RD1: hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, VOE 10: yn hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddadwy a VOE 9: canllaw ar gyfer technoleg ynni gwynt ar y tir.

4.3. Mae'r ddogfen ddrafft yn amlinellu'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy, gwarchod tirwedd a gwarchod tir amaethyddol. Mae'n cynnig canllaw os oes angen caniatâd cynllunio mewn perthynas â gosodiadau technoleg ynni adnewyddadwy bach. Pryd mae angen caniatâd mae'r CCA yn rhoi canllawiau ar ystyriaethau cynllunio allweddol wrth benderfynu ar gais. Mae'r ffocws ar egluro'r gofynion ar gyfer ystyried datblygiadau gwynt ar y tir a datblygiadau arae paneli solar. Mae'r ddwy dechnoleg yn gyffredin yn y Sir ac yng ngogledd Cymru yn gyffredinol.

4.4. O ran gwarchod y tirlun, cynhaliodd y Cyngor astudiaeth ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i asesu sensitifrwydd a chapasiti tirwedd y Sir i ddatblygiadau tyrbin gwynt. Mae'r ddogfen hon wedi bod mewn defnydd gan swyddogion wrth arwain ymgeiswyr ac ystyried ceisiadau cynllunio, fodd bynnag, mae angen statws ffurfiol drwy ymgynghori â'r cyhoedd.

4.5. O ran tir amaethyddol, mae'r ddogfen yn egluro'r gofyniad am asesiad trylwyr o radd tir amaethyddol cyn cyflwyno ceisiadau am arae paneli solar.

4.6. Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus fod o leiaf 8 wythnos a rhagwelir iddo ddechrau ym mis Hydref 2015. Byddai partïon â diddordeb yn y gorffennol, grwpiau a diwydiannau, ynghyd â'r holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cael gwybod am yr ymgynghoriad. Byddai copïau o'r ddogfen ar gael ym mhob llyfrgell y Sir a siopau un stop. Bydd dwy sesiwn (2) galw i mewn (gogledd/de y Sir) yn cael eu trefnu yn unol â chais yr Aelod Arweiniol. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda CCA terfynol ar gyfer mabwysiadu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Nid yw’r CCA yn cyfrannu’n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol. Yn anuniongyrchol, gallai gosodiadau ynni adnewyddadwy gadw pobl ddiamddiffyn mewn ardaloedd gwledig gyda gwres/ynni cynaliadwy ac nid mewn tlodi tanwydd.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Ni ragwelir y bydd cytuno ar y CCA ar gyfer ymgynghori yn creu unrhyw gost ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Y cynnig yw cynnal ymgynghoriad ar y canllaw. Nid yw'r CCA yn pennu polisi ond mae’n rhoi arweiniad pellach ar bolisïau RD1, VOE 9 a VOE 10 y CDLl. Ni ystyrir bod angen AEC ar gyfer y penderfyniad hwn. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael AEC llawn cyn ei fabwysiadu. Mae templed AEC wedi’i lenwi wedi’i atodi yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, ond ymgynghorwyd yn anffurfiol gyda swyddogion yn y Tîm Rheoli Datblygu, Adain Gwarchod y Cyhoedd a’r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol.

8.2 Mae mewnbwn Aelodau ar gynnwys y CCA hefyd wedi cael ei ddarparu trwy Grŵp Llywio Aelodau’r CDLl. Bwriadwyd y CCA yn wreiddiol i ganolbwyntio ar

dechnoleg tyrbinau gwynt ar y tir yn unig. Gofynnwyd am fewnbwn yr Aelodau i newid y CCA i ymgorffori technolegau ynni adnewyddadwy eraill ym mis Ebrill 2015. Cytunwyd ar y drafft terfynol gyda'r newidiadau yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Helpodd yr Aelodau i lunio'r paragraff economi wledig ac ystyriaethau allweddol o ran cynigion ffermydd solar.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb ganllawiau cyfredol, mae perygl na fyddai'r Cyngor yn gallu gweithredu polisi'r CDLl yn effeithiol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).